Shan Morgan
Yr Ysgrifennydd Parhaol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

20 Mai 2019

Annwyl Ysgrifennydd Parhaol

**Craffu ar Gyfrifon 2017-18**

Diolch am eich ymateb i'r argymhellion a gyfeiriwyd at Lywodraeth Cymru yn adroddiad y Pwyllgor, a drafodwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13 Mai. Roedd aelodau'r Pwyllgor yn falch o nodi bod yr holl argymhellion perthnasol wedi'u derbyn.

Cytunodd aelodau'r Pwyllgor eu bod am drafod eu pryderon â chi yn ystod y broses o graffu ar gyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19 yn nhymor yr hydref, pan fyddwn hefyd yn gallu trafod llwyddiant y gwaith o weithredu'r argymhellion. Hefyd, hoffwn dderbyn eich cynnig i gynnal sesiwn friffio breifat arall ar y gefnogaeth a ddarperir i fusnesau yng Nghymru. Roedd y sesiwn a gynhaliwyd y llynedd o fudd mawr i aelodau'r Pwyllgor, gan leddfu eu pryderon ynghylch y mater hwn. Bydd y Clercod yn cysylltu â chi yn ddiweddarach y tymor hwn i nodi dyddiad(au) posibl ar gyfer gwaith craffu yn y dyfodol.

Yn gywir,

**Nick Ramsay AC**
**Cadeirydd**